
Department of Health

DHSSPS
Department of Health, Social Services and Public Safety
www.dhsspsni.gov.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba



# Crynodeb Hawdd ei Ddarllen

© Crown copyright 2013
WG17705

# Cryfhau'r Ymrwymiad

## Crynodeb hawdd ei ddarllen

### Cyflwyniad



Yn 2011 a 2012 cynhaliwyd **adolygiad** o nyrsio anableddau dysgu. Ystyr **adolygiad** yw bod pobl yn edrych ar lawer o wybodaeth ac yn paratoi cynllun ar gyfer y camau nesaf.




Mae **Cryfhau'r Ymrwymiad** yn adroddiad ar yr adolygiad hwnnw. Cafodd yr adolygiad ei gynnal yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.




Fersiwn hawdd ei ddarllen o'r adroddiad, o'r enw **Cryfhau'r Ymrwymiad**, yw hwn.

**Pam cynnal adolygiad?**



Rydym yn gwybod y bydd rhagor o bobl ag anableddau dysgu yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd bod meddygon a nyrsys yn gallu gwneud mwy dros bobl ag anableddau dysgu. Mae hyn yn golygu bod pobl yn byw'n hirach. Gallai hyn olygu y bydd angen i fwy o bobl gael help gan nyrs anableddau dysgu



Rydym yn gwybod bod nifer y nyrsys anableddau dysgu yn mynd yn llai



Mae'r math o help y mae pobl am ei gael gan nyrsys anableddau dysgu wedi newid gryn dipyn.




Mae nyrsys anableddau dysgu yn gweithio mewn llawer o lefydd gwahanol erbyn hyn. Mae'r llywodraeth yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon am wneud yn siŵr bod digon o nyrsys anableddau dysgu i helpu pobl.




Mae'r llywodraeth hefyd am i nyrsys anableddau dysgu gael hyfforddiant da er mwyn gwneud eu gwaith yn dda.



Trefnodd y llywodraeth yr adolygiad i gael rhagor o wybodaeth am nyrsio anableddau dysgu nawr. Mae'r llywodraeth wedi bod yn meddwl pa newid sydd ei angen i nyrsio anableddau dysgu. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod gofal iechyd yn gweithio'n well i bobl nawr ac yn y dyfodol.




Mae adroddiad **Cryfhau'r Ymrwymiad** yn gwneud 17 o **argymhellion** am yr hyn sydd angen ei newid.

Ystyr **argymhelliad** yw syniad da a ddaw o adroddiad i helpu pobl i weithio'n well.

**Pa argymhellion wnaeth yr adolygiad?**




1. Bydd grŵp cenedlaethol ar gael sy'n deall ac yn cynllunio ar gyfer pob nyrs anableddau dysgu. Dylai gynnwys pobl o Gymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.




2. Mae angen gwybodaeth dda ar y grŵp am ble mae nyrsys anableddau dysgu yn gweithio.  Mae angen iddo wybod hefyd sawl nyrs sydd.



Mae angen i'r grŵp gael y wybodaeth er mwyn paratoi cynllun da i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd. Mae angen i'r cynllun gynnwys nyrsys anableddau dysgu sydd ddim yn gweithio i'r GIG.

3. Dylai fod swyddi i nyrsys anableddau dysgu gyda:



pobl sydd yn y carchar

pobl â phroblemau iechyd meddwl

pobl ag awtistiaeth

pobl hŷn

pobl â **dementia**

Mae **dementia** yn enw ar salwch. Pan fydd gan berson ddementia gall anghofio pethau, drysu neu golli sgiliau a oedd ganddo o'r blaen.




4. Mae'n rhaid i bob gwlad baratoi cynllun **gyrfa** eglur ar gyfer nyrsys anableddau dysgu. Mae **gyrfa** yn air arall am swydd. Bydd cynllun gyrfa yn dweud beth y bydd angen i nyrsys anabeddau dysgu ei wybod a gwneud yn dda yn y llefydd y maen nhw'n gweithio..

Gallai pob gwlad weithio gyda'i gilydd er mwyn i'r cynlluniau hyn edrych yr un peth

**Pa argymhellion eraill wnaeth yr adolygiad?**




5. Mae angen i bobl sy'n cynllunio gwasanaethau ac addysgu nyrsys anableddau dysgu gynllunio sut i addysgu nyrsys newydd.

Mae angen digon o nyrsys anableddau dysgu yn y llefydd iawn nawr ac yn y dyfodol



Mae angen eu hyfforddi yn y pethau cywir. Mae angen i bob nyrs anableddau dysgu gael y gwerthoedd cywir.




Mae hyn yn golygu bod angen iddyn nhw gredu yn hawliau pobl. Pobl fydd yn bwysig iddyn nhw. Dylen nhw weld beth mae pobl yn dda yn ei wneud, nid dim ond beth na allan nhw ei wneud. Dylen nhw helpu pobl i wneud y pethau maen nhw am ei wneud yn eu bywyd.



6. Mae angen gadael i nyrsys anableddau dysgu weithio gyda phobl o bob oed ac yn ystod pob rhan o fywyd person.



Mae angen iddyn nhw gael y sgiliau cywir a'r profiad i wneud hyn. Mae angen iddyn nhw weithio gyda phobl eraill ym maes iechyd a gofal cymunedol i wneud hyn yn dda.



7. Dylai nyrsys anableddau dysgu helpu pobl i ddefnyddio pob un o'r gwasanaethau iechyd sydd angen arnyn nhw, nid dim ond y rhai anableddau dysgu. Dylai hyn helpu'r gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd.



Dylai nyrsys anableddau dysgu helpu pobl i fod yn iach. Nid dim ond delio â'r problemau iechyd sydd ganddyn nhw'n baro

**Pa argymhellion eraill wnaeth yr adolygiad?**

8. Mae angen cael digon o nyrsys anableddau dysgu yn gweithio mewn gwasanaethau ar gyfer **pobl ag anghenion cymhleth.**



**Pobl ag anghenion cymhleth** yw pobl sydd angen llawer o help bob dydd. Efallai y bydd angen help arnyn nhw gyda phethau fel bwyta, yfed, golchi, gwisgo a mynd i'r toiled. Efallai y bydd ganddyn nhw fwy nag un anabledd. Efallai na fyddan nhw'n gallu siarad ond yn defnyddio ffyrdd eraill o gyfathrebu.



9. Mae angen cael ffordd o fesur y gwahaniaeth y gall nyrsys anableddau dysgu ei wneud i fywydau pobl.



10. Dylai nyrsys anableddau dysgu weithio'n gallach ac yn well.

## What recommendations did the review make? continued




11. Mae'n rhaid i hyfforddwyr addysgu nyrsys anableddau dysgu am y pethau sydd yn adroddiad **Cryfhau'r Ymrwymiad**.




12. Mae angen cael cynllun da ar addysgu nyrsys anableddau dysgu. Bydd hyn yn golygu y bydd digon o nyrsys yn y llefydd cywir gyda'r sgiliau cywir.




13. Mae angen i'r llefydd sy'n addysgu staff a gwasanaethau weithio gyda'i gilydd. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu yn gallu dysgu mwy am weithio gyda'i gilydd.



14. Mae angen i nyrsys anableddau dysgu gael cyfleoedd i ddysgu am syniadau sy’n gwella iechyd pobl. Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddyn nhw gael cefnogaeth dda gan eu rheolwyr.

**Pa argymhellion eraill wnaeth yr adolygiad?**




15. Mae angen i nyrsio anableddau dysgu gael arweinwyr cryf a chlir ym mhob rhan o Gymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Byddan nhw'n cael help gan arweinwyr anableddau dysgu sydd â llawer o brofiad.



16. Mae angen i nyrsys anableddau dysgu rannu ffyrdd da o weithio gyda phobl ag anableddau dysgu.




Mae angen gwneud gwaith ymchwil i weld pa rannau o waith nyrs anableddau dysgu sydd wir yn helpu pobl. Bydd gwaith ymchwil yn dangos **tystiolaeth** o beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio. Dylai nyrsys anableddau dysgu wybod am dystiolaeth fel y byddan nhw ond yn gweithio yn y ffyrdd sy'n gweithio'n dda. Mae angen i nyrsys anableddau dysgu fod yn dda am ddeall ymchwil a gwneud gwaith ymchwil.

**Rhagor o wybodaeth**

Mae'r crynodeb hawdd ei ddarllen yma wedi ei baratoi gan Gonsortiwm Anableddau Dysgu yr Alban a'r Grŵp Cyfeirio Moderneiddio Nyrsio Anableddau Dysgu Group.



Scottish Consortium for Learning Disability

Floor 6, Merchant Exchange

20 Bell Street

Glasgow G1 1LG

Ffôn: 0141 559 5720

Gwefan: www.scld.org.uk

scottish consortium for learning disability
Building respect in the Scottish community

Mae fersiwn llawn o adroddiad Cryfhau'r Ymrwymiad ar gael yn: http://www.scotland.gov.uk/Publications/2012/04/6465